



Cyfnod tyngedfennol ar gyfer newid

Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru

Cyflwyniad

Mae llywodraeth leol yng Nghymru yn wynebu amgylchedd ariannol cynyddol gyfyngedig a chymhleth (Archwilio Cymru, 2024). Mae'r 22 awdurdod lleol sy'n gyfrifol am ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i 3.1 miliwn o drigolion dan bwysau cynyddol, gan godi amheuaeth ynghylch cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol (Llywodraeth Cymru, 2025a). Gyda chyllid llywodraeth leol yn fwyfwy canolog i drafodaethau cenedlaethol ar gynaliadwyedd gwasanaethau, adnewyddu'r economi, a diwygio cyfansoddiadol, mae etholiad Senedd Cymru sydd ar ddod yn gyfle allweddol i bleidiau gwleidyddol fynegi llwybrau diwygio clir ac ymrwymo i newid strwythurol tymor hwy.

Mae'r papur briffio hwn yn cyflwyno fframwaith dadansoddol pum rhan ar gyfer asesu pa mor dda y gall systemau cyllid llywodraeth leol wrthsefyll sioc economaidd, addasu i newid, a pharhau i ddarparu gwasanaethau hanfodol. Mae'n archwilio strwythur llywodraethiant, goruchwyliaeth ddeddfwriaethol, ffynonellau refeniw, disgrisiwn gwario, a mecanweithiau cydraddoli drwy lens cadernid ac ymreolaeth.

Gan gymhwyso'r fframwaith, mae Cymru'n sgorio 10.5 allan o 25 pwynt posibl, gan ei rhoi ar y ffin rhwng cadernid ariannol isel a chanolog. Er bod y system yn dal yn weithredol yn gyffredinol, mae'n wynebu cyfyngiadau sylweddol ac yn cyflwyno cyfleoedd clir ar gyfer diwygio, y mae'r papur yn ceisio mynd i'r afael â nhw drwy ei argymhellion.

Sut beth yw system gyllid dda i lywodraeth leol

Yn hytrach na dibynnu'n llwyr ar ddangosyddion ariannol cyfredol, mae'r fframwaith yn archwilio'r nodweddion sefydliadol sy'n caniatáu i systemau addasu a gweithredu'n effeithiol dros amser:

1. Mae strwythur llywodraeth is-genedlaethol yn darparu'r sylfaen ar gyfer sut mae'r system yn gweithio. Mae ffactorau fel maint awdurdodau, eglurder eu swyddogaethau, a sut maent yn cydweithio yn siapio eu gallu i weithredu'n effeithlon ac addasu i newid.

2. Mae fframweithiau a goruchwyliaeth ddeddfwriaethol yn pennu lefel yr ymreolaeth sydd ar gan awdurdodau lleol a'r cyfyngiadau rheoleiddiol y maent yn gweithredu oddi tanynt, gan ddylanwadu ar y gallu a'r cwmipas sydd ganddynt ar gyfer arloesi.

3. Mae'r ffynonellau incwm sydd ar gael yn darparu'r sail ariannol ar gyfer cyflenwi gwasanaethau. Mae'r amrywiaeth rhwng cynghorau o ran ffynonellau refeniw, rheolaeth leol dros gyfraddau treth, a'r cydbwysedd rhwng incwm a gynhyrchir yn lleol a chyllid gan Lywodraeth Cymru i gyd yn dylanwadu ar ymreolaeth a chynaliadwyedd hirdymor cynghorau. Mae systemau sy'n dibynnu'n drwm ar grantiau canolog yn fwy diamddiffyn yn wyneb newidiadau polisi, tra bo'r rhai sydd ag amrediad ehangach o ffynonellau incwm yn tueddu i ymdopi'n well â phwysau ariannol.

4. Mae disgrisiwn o ran gwariant yn pennu pa mor rhwydd y gall awdurdodau ddyrannu

adnoddau mewn ymateb i flaenoriaethau lleol. Mae'r graddau y mae cyllid ynghlwm wrth ddefnyddiau penodol, lefel yr hyblygrwydd sydd gan awdurdodau wrth addasu lefelau gwasanaeth, a pha mor rhydd ydynt o ofynion a osodir yn ganolog i gyd yn dylanwadu ar allu lleol i addasu. Heb ddigon o hyblygrwydd o ran gwariant, gall awdurdodau sy'n cael eu hariannu'n gymharol dda, hyd yn oed, ei chael hi'n anodd diwallu anghenion lleol yn effeithiol.

5. Mae mecanweithiau cydraddoli sy'n seiliedig ar asesiadau rheolaidd o angen cymharol yn helpu i leihau gwahaniaethau yng ngallu cynghorau i godi a gwario arian. Mae systemau cydraddoli cryf yn taro'r cydbwysedd cywir rhwng sicrhau bod cynghorau'n cael cymorth priodol ar yr un pryd â chynnal cymhellion ar gyfer rheolaeth ariannol gyfrifol a chynhyrchu refeniw lleol.

Mae'r fframwaith yn defnyddio system sgorio pum pwynt strwythuredig i asesu pob dimensiwn, gyda sgoriau'n amrywio o 1 (dim ond ychydig iawn o wydnwch neu ymreolaeth) i 5 (gwydnwch neu ymreolaeth optimaidd). Mae'r sgorio'n seiliedig ar ddamcaniaethau sefydledig o ran cyllid cyhoeddus ac yn cael ei lywio gan arferion gorau rhyngwladol ym maes datganoli cyllidol, dylunio sefydliadol, a chyflenwi gwasanaethau cyhoeddus.

Gwerthuso cyllid llywodraeth leol yng Nghymru

Gan ddefnyddio'r fethodoleg sgorio, mae Cymru'n cael sgôr o 10.5 allan o 25. Mae hyn yn gosod y system ar y trothwy rhwng **cadernid ac ymreolaeth isel**, a nodweddir gan wendidau systemig y mae angen eu diwygio, a **chadernid ac ymreolaeth gymedrol**, lle mae'r system yn parhau i weithredu dan gyfyngiadau sylweddol. Mae'r sgôr hon yn adlewyrchu nifer o faterion, gan gynnwys:

1. Cyfyngiadau strwythurol. Mae'r model 22 cyngor yng Nghymru yn rhoi eglurder sefydliadol ac yn cefnogi cydweithio. Fodd bynnag, gall amrywiadau ym maint cynghorau arwain at ddarnio, costau uwch i gynghorau llai, a gallu anghyson i godi incwm yn lleol, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Er bod diwygio strwythurol wedi cael ei drafod dro ar ôl tro, mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod elfennau eraill o'r system yn cynnig mwy o botensial ar gyfer newid mwy ystyrlon a realistig.

2. Ymreolaeth ariannol gyfyngedig dan y trefniadau deddfwriaethol presennol. Er gwaethaf mwy o bwerau datganoledig a diwygiadau diweddar¹, Llywodraeth y DU sy'n dal yn gyfrifol am lawer o'r penderfyniadau allweddol ynghylch cyllid llywodraeth leol. Ynghyd â rhwymedigaethau cyfreithiol a gofynion archwilio statudol sylweddol, mae hyn yn cyfyngu ar faint y rhyddid sydd gan gynghorau yn ymarferol ac yn creu system sydd wedi'i llywio i'r un graddau gan ofynion canolog â chan flaenoriaethau lleol.

3. Sylfaen refeniw gul a chyfyngedig. Mae cynghorau Cymru yn dibynnu'n drwm ar y Grant Cynnal Refeniw a ddarperir gan Lywodraeth Cymru, a dim ond un dreth leol fawr sydd ganddynt, sef y dreth gyngor. Mae ardrethi busnes yn cael eu dosbarthu'n genedlaethol, ac mae gan gynghorau ryddid cyfyngedig i bennu neu newid ffioedd a thaliadau. O'i chymharu â'i chymheiriaid yn y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD), mae gan Gymru ystod gyfyngedig iawn o offerynnau refeniw lleol.

4. Disgresiwn cyfyngedig o ran gwariant yn ymarferol. Er y gall cynghorau wario'r grant cynnal refeniw yn ôl eu disgresiwn, rhaid ariannu gwasanaethau statudol yn gyntaf ac mae'r galw cynyddol yn y gwasanaethau hyn, yn enwedig addysg a gofal cymdeithasol, yn gwasgu cyllid allan o wasanaethau anstatudol. Er gwaethaf ymdrechion i leihau'r cyfyngiadau ar sut mae cyllid yn cael ei wario, mae'r

¹ Drwy [Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol \(Cymru\) 2024](#)

posibilrwydd gwirioneddol o hyblygrwydd gwario lleol wedi parhau i leihau bob blwyddyn.

5. Mekanweithiau cydraddoli tryloyw ond wedi dyddio. Mae'r system gydraddoli yn seiliedig ar reolau ac mae'n gydweithredol, ond ni chafwyd adolygiad cynhwysfawr o'r fformiwla sylfaenol ers dros 20 mlynedd. Nid yw anghenion sy'n dod i'r amlwg, newid demograffig, a heriau darparu gwasanaethau mewn ardaloedd gwledig yn cael eu hadlewyrchu'n gyson.

Er gwaethaf y gwendidau hyn, mae cryfderau presennol yn y system yng Nghymru y gellir adeiladu arnynt. Er enghraifft, mae gwaith partneriaeth cryf rhwng Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yn cymharu ag enghreifftiau rhyngwladol ac yn gryfach na threfniadau yn Lloegr. Cryfder arall y system yw'r hyblygrwydd a ddarperir gan Grant Cynnal Refeniw heb ei glustnodi, sy'n galluogi gosod blaenoriaethau lleol o fewn terfynau statudol. Er bod lle i wella, mae dyraniad y Grant Cynnal Refeniw ar sail fformiwla hefyd yn cefnogi dosbarthiad tryloyw a theg ar y cyfan o adnoddau sy'n adlewyrchu angen lleol. Yn olaf, mae defnydd cynyddol o fodelau darparu cydweithredol yn amlwg, gan gynnwys modelau ffederal sy'n dod i'r amlwg fel Torfaen a Blaenau Gwent.

Cyfleoedd i ddiwygio

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod systemau gwydn yn cyfuno refeniw amrywiol, cydraddoli modern, ac ymreolaeth leol ystyrlon. Mae gan Gymru nifer o sylfeini cadarn ond mae angen rhaglen ddiwygio raddol a strategol arni:

Haen 1: Diwygiadau tymor byr (isel o ran gwrthdaro, uchel o ran dichonoldeb)

1. Moderneiddio proses y setliad

Dylai Cymru adolygu sut mae angen a chost yn cael eu hasesu yn y Grant Cynnal Refeniw i sicrhau bod awdurdodau sy'n wynebu natur wledig, tlodi sydd wedi gwreiddio, neu alw uwch am ofal cymdeithasol yn derbyn cymorth priodol.

Yn yr Almaen, mae'r system gydraddoli yn cael ei hail-galibro'n rheolaidd i adlewyrchu anghenion gwariant a chapasiti treth (Gweinyddiaeth Gyllid Ffederal yr Almaen, 2025). Gallai mabwysiadu methodoleg fwy tryloyw a symlach yn debyg i un yr Almaen helpu i sicrhau bod cyllid yn adlewyrchu amgylchiadau sy'n newid dros amser yn well.

2. Diweddarau dangosyddion cydraddoli

Mae gan Gymru eisoes fframwaith cymharol dryloyw ar gyfer ailddosbarthu cyllid rhwng cynghorau drwy'r Grant Cynnal Refeniw ac ardrethi busnes wedi'u hailddosbarthu. Fodd bynnag, gallai elwa o ddefnyddio modelau cydraddoli OECD i gyflwyno gwell data, dangosyddion cyfoes, a gwell tryloywder prosesau. Mae'r Ffindir yn diweddarau metrigau demograffig, daearyddol ac economaidd-gymdeithasol bob blwyddyn (Gweinyddiaeth Gyllid y Ffindir, 2025); mae'r Iseldiroedd yn defnyddio ffactorau pwysoli costau manwl (Llywodraeth yr Iseldiroedd, 2025); ac mae'r Swistir yn ymgorffori capasiti cyllidol a gwahaniaethau cost strwythurol ar draws cantonau (Gweinyddiaeth Gyllid Ffederal y Swistir, 2025).

3. Cryfhau'r monitro a'r tryloywder ariannol

Mae llawer o wledydd yn defnyddio dangosyddion syml a hygyrch i fonitro iechyd ariannol. System goleuadau traffig Japan yw'r enghraifft a ddyfynnir fwyaf o hyd (Kawato, 2010), tra bod awdurdodau goruchwylio trefol yr Almaen yn defnyddio sbardunau rhybudd cynnar a throthwyon ymyrraeth diffiniedig. Gallai Cymru ddatblygu mesur iechyd ariannol symlach sydd ar gael i'r cyhoedd i gefnogi cynghorwyr, rhanddeiliaid a dinasyddion.

4. Dyfnhau'r gwaith partneriaeth

Er bod cydweithio ffurfiol rhwng gwahanol haenau o lywodraeth yn fwy sefydledig yng Nghymru nag yn Lloegr, mae modelau rhyngwladol yn dangos rhagor o gyfleoedd i gryfhau partneriaethau rhwng llywodraeth ganolog a llywodraeth leol. Er enghraifft, mae Cynhadledd Unedig yr Eidal yn darparu

fforymau cydbenderfynu statudol ar draws haenau'r llywodraeth (Llywyddiaeth Cyngor y gweinidogion, 2025), ac mae cymdeithasau llywodraeth leol yr Almaen yn llunio deddfwriaeth ffederal a Länder. Gallai adeiladu ar gryfderau presennol Cymru, gan gynnwys modelau ffederal sy'n dod i'r amlwg fel Torfaen a Blaenau Gwent, wella ymddiriedaeth a galluogi gwasanaethau a rennir neu ddarpariaeth ar y cyd ar raddfa fawr.

Haen 2: Diwygiadau tymor byr–canolig

5. Cyflwyno setliadau aml-flwyddyn

Dylai Cymru gyd-fynd â'r rhan fwyaf o wledydd y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd (OECD) drwy roi mwy o sicrwydd i lywodraeth leol ynghylch y gyllideb dros nifer o flynyddoedd. Mae'r Iseldiroedd yn gweithredu fframweithiau setliad pedair blynedd, mae Sweden yn dibynnu ar gylchoedd cyllideb tair blynedd, ac mae'r Almaen yn defnyddio cynllunio ariannol tymor canolig i lywio cyllidebu is-genedlaethol. Mae symudiad gofalus Lloegr tuag at setliadau aml-flwyddyn hefyd yn darparu cynsail berthnasol i'r DU.

6. Cydgrynhai rhagor ar grantiau a lleihau'r defnydd o glustnodi

Mae gwledydd Nordig fel Denmarc, y Ffindir a Norwy yn rhoi mwy o ryddid i gynghorau ynghylch sut mae cyllid grant yn cael ei ddefnyddio, gyda grantiau'n cael eu darparu fel taliadau bloc hyblyg gyda chlustnodi yn gyffredinol o dan 10%. Byddai lleihau clustnodi yng Nghymru i lai na 10%, ac yn ddelfrydol yn nes at lefelau Nordig, yn gwella disgrisiwn lleol, yn lleihau'r baich gweinyddol, ac yn cefnogi cynllunio ariannol mwy strategol. Yn y tymor canolig i'r tymor hir, dylid anelu at ddileu'n gyfan gwbl grantiau sydd wedi'u neilltuo er mwyn galluogi disgrisiwn lleol.

7. Moderneiddio ffioedd a thaliadau

Yn rhyngwladol, mae ffioedd a thaliadau'n gyfran ystyrion o refeniw lleol, ond mae gan gynghorau yng Nghymru lai o ryddid i'w defnyddio. Mae Awstria a'r Almaen yn caniatáu

disgrisiwn eang i fwrdeistrefi bennu ffioedd am wasanaethau sy'n amrywio o gasglu gwastraff i gynllunio, ac mae Seland Newydd yn gwneud defnydd helaeth o godi tâl ar ddefnyddwyr mewn llywodraeth leol, wedi'i lywio gan egwyddorion clir ar gyfer adfer costau (Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Seland Newydd, 2021). Gallai diwygio dull Cymru o ymdrin â ffioedd a thaliadau gefnogi arloesedd lleol a lleihau'r pwysau ar drethi craidd.

Haen 3: Diwygiadau tymor canolig–hir

8. Canfod amrywiaeth o opsiynau refeniw lleol

Ledled Ewrop, mae awdurdodau is-genedlaethol yn elwa ar ystod ehangach o offerynnau treth lleol na'r rhai sydd ar gael yng Nghymru ar hyn o bryd. Mae Sweden a Denmarc yn dibynnu'n drwm ar drethiant incwm lleol; mae Ffrainc yn defnyddio cymysgedd o drethi preswyl, eiddo a busnes; ac mae'r Eidal a Sbaen yn rhoi gordaliadau rhanbarthol ar drethi incwm neu ddefnydd. Byddai caniatáu i awdurdodau lleol gael mynediad wedi'i reoli at drethi incwm neu werthiannau lleol, ardollau dethol, a threthi twristiaeth neu amgylcheddol newydd, yn cryfhau ymreolaeth ariannol ac yn sicrhau bod cynhyrchu refeniw yn cyd-fynd yn well â dewisiadau polisi lleol.

9. Ail-gydbwyso'r atebolrwydd costau ar gyfer ieuchyd, gofal cymdeithasol, ac addysg

Mae awdurdodau lleol Cymru yn gwario'r rhan fwyaf o'u cyllidebau ar wasanaethau statudol fel ieuchyd, gofal cymdeithasol ac addysg, gan gyfyngu ar eu gallu i ganolbwyntio ar rolau dewisol a rolau llunio lleoedd. Mae cymheiriaid rhyngwladol wedi mynd i'r afael â hyn drwy newid yr haen o lywodraeth sy'n gyfrifol am dalu costau'r gwasanaethau hyn. Er enghraifft, trosglwyddodd y Ffindir y cyfrifoldeb dros ieuchyd a gofal cymdeithasol i 21 o siroedd gwasanaeth llesiant newydd, gan ganiatáu i fwrdeistrefi ganolbwyntio mwy ar addysg a datblygu lleol (Sefydliad Iechyd a Lles y Ffindir, 2025), tra bod Denmarc wedi ail-alinio cyfrifoldebau a chyllid i leihau dyblygu ac egluro atebolrwydd (Kjaer et

al., 2010). Gallai ail-alinio tebyg yng Nghymru fireinio ffocws llywodraeth leol ar wasanaethau cymunedol, atal, a thwf economaidd lleol.

Haen 4: Diwygio strwythurol yn y tymor hir

10. Mynd ar drywydd sybsidiaredd cyllidol ystyrlon i alinio pwerau refeniw â chyfrifoldebau gwasanaeth

Mae tystiolaeth ryngwladol yn dangos bod systemau'n fwy gwydn pan fydd y cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau'n cyd-fynd â'r rheolaeth dros gyllid. Mae gwledydd fel y Swistir, Sbaen a'r Eidal yn rhoi mynediad i llywodraethau is-genedlaethol at seiliau treth sylweddol. Yn Japan, datgelodd Trinity Reform ddiffyg cyfatebiaeth rhwng lle'r oedd arian yn cael ei wario, a lle'r oedd refeniw'n cael ei reoli, gan arwain at ddatganoli pwerau refeniw yn sylweddol (Ikawa, 2008). Gallai ymarfer diagnostig tebyg yng Nghymru dynnu sylw at anghydbwysedd strwythurol a chryfhau'r achos dros ailddyrrannu pwerau trethu i gyfateb yn well i gyfrifoldebau lleol.

Casgliad

Mae system gyllid llywodraeth leol yng Nghymru yn weithredol ond yn gyfyngedig iawn, â nodweddion dibyniaeth, ffynonellau refeniw cul, galw statudol cynyddol, a threfniadau cydraddoli sydd wedi dyddio (Archwilio Cymru, 2024; CLILC, 2024a). Ar yr un pryd, mae Cymru'n elwa o strwythurau partneriaeth cryf, mecanweithiau dosbarthu tryloyw, a hanes o ddiwygio cydweithredol.

Felly, mae'r etholiad sydd ar ddod ar gyfer y Senedd yn gyfle hollbwysig i osod cyfeiriad newydd, un sy'n moderneiddio cyllid llywodraeth leol, yn cryfhau gwydnwch, ac yn sicrhau bod Cymru'n cyd-fynd yn agosach ag arferion blaenllaw yn yr OECD. Drwy fwrw ymlaen â'r diwygiadau graddol a nodir yma, gall Cymru adeiladu system sy'n fwy ymreolaethol, teg a chynaliadwy yn ariannol dros y degawdau nesaf.

Cyfeiriadau

Archwilio Cymru (2024) **Cynaliadwyedd ariannol llywodraeth leol yng Nghymru.**

Wedi'i adalw o:

https://www.wao.gov.uk/sites/default/files/publications/cynaliadwyedd_ariannol_llywodraeth_leol.pdf

Gweinyddiaeth Gyllid y Ffindir (2025) **Central government transfers to municipalities for basic public services.**

Sefydliad Iechyd a Lles y Ffindir (2025) **Wellbeing services counties are finding financial balance, but the progress of structural reforms varies.** Wedi'i adalw o: <https://thl.fi/en/-/wellbeing-services-counties-are-finding-financial-balance-but-the-progress-of-structural-reforms-varies->

Gweinyddiaeth Gyllid Ffederal yr Almaen (2025) **Financial relations between the Federation and Länder on the basis of constitutional financial provisions 2024.**

Llywodraeth yr Iseldiroedd (2025) **Finances, Municipalities and Provinces.**

Ikawa, H. (2008) **15 years of decentralisation reform in Japan.** Cyngor yr Awdurdodau Lleol ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol (CLAIR). Wedi'i adalw o: https://www.jlqc.org.uk/en/pdfs/up-to-date_en4.pdf

Kawato, Y. (2010) **The new system for promoting soundness in local finances in Japan.** Cyngor yr Awdurdodau Lleol ar gyfer Cysylltiadau Rhyngwladol (CLAIR). Wedi'i adalw o: https://www.clair.or.jp/j/forum/honyaku/hikaku/pdf/up-to-date_en7.pdf

Kjaer, U., Hjelm, U., & Leth Olsen, A. (2010) **Municipal Amalgamations and the Democratic Functioning of Local Councils: The Case of The Danish 2007 Structural Reform.** *Local Government Studies*, 36(4), 569-585. <https://doi.org/10.1080/03003930.2010.494112>

Swyddfa Archwilydd Cyffredinol Seland Newydd (2021) **Setting and administering fees and levies for cost recovery: Good practice guide.** Wedi'i adalw o: <https://oag.parliament.nz/2021/fees-and-levies>

Llywyddiaeth Cyngor y Gweinidogion (2025) **State–Regions Conference / Unified Conference: Official Documents and Agreements.** Llywodraeth yr Eidal. Ar gael drwy byrth swyddogol Llywyddiaeth Cyngor y Gweinidogion a'r system Cynadleddau.

Gweinyddiaeth Gyllid Ffederal y Swistir (2025) **National fiscal equalisation.** Gorffennaf 2025.

Llywodraeth Cymru (2025a) **Datganiad Meysydd o Ddiddordeb Ymchwil: materion economaidd a chyllidol.** Wedi'i adalw o:

<https://www.llyw.cymru/datganiad-meysydd-o-ddiddordeb-ymchwil-materion-economaidd-a-chyllidol-html>

CLILC (2024a) Gwasanaethau Cyngor yn wynebu pwysau anghynaliadwy. Wedi'i adalw o: <https://www.wlga.cymru/council-services-face-%e2%80%99cunsustainable%e2%80%9d-budget-pressures-says-wlga>

Rhagor o wybodaeth

Am yr adroddiad llawn gweler Muldoon-Smith, K. (2026). **Cyfnod tyngedfennol ar gyfer newid: Diwygio cyllid llywodraeth leol yng Nghymru**. Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru.

Gwybodaeth am Ganolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Yma yn y Ganolfan, rydym yn cydweithio ag arbenigwyr polisi blaenllaw i roi cyngor annibynnol a thystiolaeth o ansawdd da i weinidogion, y gwasanaeth sifil a gwasanaethau cyhoeddus Cymru, i'w helpu i wella penderfyniadau a chanlyniadau polisi. Mae'r Ganolfan yn cael ei hariannu gan y Cyngor Ymchwil Economaidd a Chymdeithasol, Llywodraeth Cymru a Phrifysgol Caerdydd. Mae

wedi'i lleoli ym Mhrifysgol Caerdydd ac yn aelod o Rwydwaith What Works y DU a Rhwydwaith Ymgysylltu â Pholisi'r Prifysgolion (UPEN).

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch â:

Jack Price

+44 (0)29 2087 5345

info@wcpp.org.uk

Canolfan Polisi Cyhoeddus Cymru

Prifysgol Caerdydd, Sbarc/Spark, Ffordd Maindy, Caerdydd CF24 4HQ



www.wcpp.org.uk/cy



029 2087 5345



info@wcpp.org.uk



@WCfPP

